


# Tyfu Canolbarth Cymru Mis Medi 2025

**Croeso i rifyn mis Medi o Gylchlythyr Tyfu Canolbarth Cymru!**

Wrth i'r haf ddod i ben, rydym yn edrych ymlaen at dymor cyffrous o gynnydd a chyfleoedd ledled Canolbarth Cymru. Yn y rhifyn hwn, fe welwch ddiweddariadau ar raglenni cyllido, cerrig milltir cysylltedd digidol, mentrau sgiliau, a digwyddiadau sy'n helpu i roi ein rhanbarth yn gadarn ar y map.

O brosiectau arloesol ym maes technoleg amaeth a thechnoleg bwyd, i lwyddiannau band eang dan arweiniad y gymuned, a chyfleoedd buddsoddi cyfalaf newydd, mae digon yn digwydd ledled Ceredigion a Phowys sy'n dangos cryfder cydweithio ac arloesedd yn ein rhanbarth.

Rydym yn gobeithio y byddwch yn mwynhau dal i fyny â'r datblygiadau diweddaraf ac yn teimlo'n ysbrydoledig gan y gwaith sy'n cael ei wneud i lunio dyfodol bywiog i Ganolbarth Cymru. Peidiwch ag anghofio bod rhai dyddiadau allweddol ar grantiau, digwyddiadau a swyddi yn y rhifyn hwn sy'n digwydd yn fuan, felly gwnewch yn siŵr nad ydych chi'n colli allan!

Tîm Tyfu Canolbarth Cymru

[**Clawr**: Digwyddiad Rali Ceredigion a gymerodd ran 5-7 Medi ar draws Powys a Cheredigion ac a arianwyd yn rhannol gan Gronfa Ffyniant Cyffredin y DU.]

## Cynnwys


- Astudiaeth Achos: Clwstwr Technoleg Amaeth a Bwyd ar gyfer Canolbarth a Gogledd Cymru
- YN DOD YN FUAN – Porth Gyrfaoedd 360
- Ffocws ar Gronfa Ffyniant Cyffredin y DU: Buddsoddiad Cyfalaf ac Uchafbwyntiau’r Prosiect
- Cronfa Buddsoddi Eiddo Masnachol Canolbarth Cymru – Diweddariad
- Newyddion Bargen Twf: Arweinwyr Cyngor yn Ymweld â CYDA i gael Diweddariad am Ddatblygiad Cynefin
- Datblygiad Digidol: Cyfnewidfa Rhydlewis yn cyrraedd targed 100% ar gyfer prosiect ffibr cymunedol
- Swyddi ar gael!
- Newyddion eraill


## Astudiaeth Achos: Clwstwr Technoleg Amaeth a Bwyd ar gyfer Canolbarth a Gogledd Cymru

### Fferm laeth arloesol yn arwain y ffordd o ran ffermio moesegol a rhannu sgiliau ar draws Canolbarth Cymru



Mae Dyfi Dairies yn tanio llwybr ar gyfer dyfodol ffermio llaeth yng Nghanolbarth Cymru.

Fel fferm laeth gwartheg gyda'u lloi cyntaf yng Nghymru, mae'r sylfaenydd Sophia wedi arloesi model sy'n rhoi lles anifeiliaid, iechyd meddwl a chynaliadwyedd hirdymor wrth wraidd iddo.

Fel rhan o Glwstwr Technoleg Amaeth a Bwyd ar gyfer Canolbarth a Gogledd Cymru gyda chefnogaeth cyllid Arloeswyr Newydd drwy Innovate UK a chyllid LEAP* ychwanegol drwy Arloesi Aber, mae Dyfi Dairies wedi tyfu o syniad beiddgar i system ymarferol, ffyniannus y mae eraill bellach yn awyddus i'w dilyn.

Er bod eu tir fferm wedi'i leoli ym Mhowys, mae eu cyfleuster prosesu ychydig dros y ffin sirol yng Ngheredigion - cynrychiolaeth briodol o'u heffaith draws-ranbarthol. Yn ddiweddar, sicrhaodd y fferm gytundeb tenantiaeth oes, gan gynnig sefydlogrwydd i barhau i ddatblygu ac ehangu eu dull unigryw.

Darllenwch mwy ar ein wefan.

Gall busnesau sydd â diddordeb mewn ymuno â'r clystyrau Technoleg Amaeth neu Dechnoleg Bwyd a chadw gwybod am gyfleoedd ariannu yn y dyfodol ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan Tyfu Canolbarth
Cymru: www.tyfucanolbarth.cymru/TechAmaethTechBwyd



## YN DOD YN FUAN – Porth Gyrfaoedd 360

Rydym yn gyffrous i rannu bod y Porth Gyrfaoedd 360 ar fin cael ei lansio ledled ysgolion yng Ngheredigion a Phowys. Bydd yr adnodd digidol arloesol hwn yn trawsnewid sut mae pobl ifanc yn archwilio llwybrau gyrfa, gan roi mewnwelediadau rhithwir 360° iddynt i ystod eang o ddiwydiannau yma yng Nghanolbarth Cymru.

Disgwylir i'r cyflwyniad ddechrau yn yr wythnosau nesaf, gan ddod â'r byd gwaith yn agosach at ystafelloedd dosbarth ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i feddwl yn uchelgeisiol am eu dyfodol.

👉 Gwyliwch y gofod hwn – byddwn yn dathlu'r lansiad llawn yn ein cylchlythyr nesaf gyda mwy o fanylion am sut mae myfyrwyr, ysgolion a chyflogwyr yn cymryd rhan.




## Ffocws ar Gronfa Ffyniant Cyffredin y DU: Buddsoddiad Cyfalaf ac Uchafbwyntiau'r Prosiect

### Grantiau cyfalaf ar gael ar gyfer busnesau, gwerth hyd at £25k

Gall busnesau ym Mhowys, a'r rhai sy'n symud i'r sir, wneud cais am gylch newydd o grantiau cyfalaf gwerth rhwng £5,000 a £25,000.

Mae'r rhain yn cael eu cynnig gan y cyngor sir ac yn cael eu hariannu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU.

Gellir defnyddio Grantiau Cyfalaf Busnes Powys i:

- gefnogi prynu offer sy'n hybu cynhyrchiant neu ar gyfer creu cynhyrchion neu wasanaethau newydd, neu
- gefnogi buddsoddiad mewn technolegau gwyrddach, fel cael systemau goleuadau neu wresogi newydd sy'n fwy cynaliadwy na'r rhai sydd ganddynt ar hyn o bryd.

Rhaid cyflwyno datganiadau o ddiddordeb erbyn dydd Llun 15 Medi, gyda disgwyl i fusnesau llwyddiannus gyflwyno eu ceisiadau llawn cyn diwedd y dydd ar ddydd Gwener 3 Hydref.

Dysgwch mwy am y grant ar wefan Cyngor Sir Powys.




*1 - LLUN: Derbyniodd CastAlum, yn Y Trallwng, Grant Twf Busnes drwy Gyngor Sir Powys y llynedd gwerth £25,000, ac fe'i defnyddiwyd tuag at y gost o ddiweddaru dau o'i beiriannau dei-gastio. Dyma nhw gydag un o'r peiriannau y maen nhw wedi ei ddiweddaru (o'r chwith): Karl Meredith, Rheolwr Gyfarwyddwr; Simon Grimwade, Rheolwr y Ffatri; a Neil Simmonds, Rheolwr Cynnal a Chadw.*

## Rali Ceredigion 2025: Rhoi Canolbarth Cymru ar y map

Daeth JDS Machinery Rali Ceredigion 2025 â chyffro a sylw rhyngwladol i Ganolbarth Cymru unwaith eto. Llongyfarchiadau i'r enillwyr, yr holl griwiau a wnaeth gystadlu, a diolch yn fawr i'r trefnwyr, gwirfoddolwyr, gwylwyr ac ymwelwyr a wnaeth y penwythnos yn un cofiadwy.

Roedd y rali eleni yn wirioneddol ranbarthol, gyda chymalau yn rhedeg trwy Geredigion a Phowys – gan gynnwys rhannau newydd sbon yng Nghwm Elan a chymal diwygiedig Y Diafol. Tynnodd y digwyddiad sylw at y dirwedd ysblennydd a'r croeso cynnes sydd gan Ganolbarth Cymru i'w gynnig, tra'n denu miloedd o ymwelwyr.

Mae'r rali yn cael ei chefnogi gan Gyngor Sir Ceredigion ac fe'i hariannir yn rhannol gan g Gronfa Ffyniant Cyffredin y DU (SPF) gan Lywodraeth y DU. Trwy'r gefnogaeth hon, cyflwynodd Rali Ceredigion nid yn unig ddigwyddiad chwaraeon cyffrous, ond helpodd hefyd i roi hwb i'r economi leol, twristiaeth a balchder cymunedol.

Mae digwyddiadau fel hyn yn chwarae rhan bwysig wrth roi Canolbarth Cymru yn gadarn ar y map. 🌍




## Croesewir Hyfforddeion Graddedigion fel rhan o gyllid Cronfa Ffyniant Cyffredin y DU

Diolch i gyllid ar y cyd gan y Cronfa Ffyniant Cyffredin y DU a Chyngor Ceredigion, mae Cynllun Graddedigion peilot wedi'i ddatblygu yng Ngheredigion gan y Tîm Dysgu a Datblygu. Nod y cynllun yw cefnogi meysydd gwasanaeth i gynllunio olyniaeth ar gyfer rolau sy’n anodd eu llenwi.

Dechreuodd y pum graddedig llwyddiannus yn eu swyddi ar 1 Medi. Rydym yn dymuno pob llwyddiant iddynt wrth iddynt ddechrau ar eu gyrfaoedd gyda Chyngor Ceredigion.




## Gwobrau Caru Ceredigion 2025: Categori Caru'ch Cymuned – Ceisiadau ar gau!

Mae'r cam ymgeisio ar gyfer categori newydd Cyngor Sir Ceredigion Caru'ch Cymuned yng Ngwobrau Caru Ceredigion 2025 bellach wedi cau, ac mae ceisiadau yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Cyflwynwyd y categori cyffrous hwn i anrhydeddu ymdrechion trefi a phentrefi ledled Ceredigion sy'n mynd yr ail filltir i wella eu cymunedau lleol – boed hynny trwy gadw mannau cyhoeddus yn daclus, cynnal digwyddiadau cymunedol, neu ddarparu gwasanaethau hanfodol.

Cadwch lygad allan – bydd y rhai sy'n cyrraedd y rownd derfynol yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir ynghyd ag enwebiadau ar gyfer y categorïau gwobrau eraill ar gyfer Gwobrau Caru Ceredigion 2025, a gynhelir ar 11 Rhagfyr.



## Cronfa Buddsoddi Eiddo Masnachol Canolbarth Cymru – Diweddariad




Mae cam cyntaf y Gronfa bellach wedi'i gwblhau, gyda'r holl geisiadau wedi'u hadolygu'n ofalus a phenderfyniadau wedi eu gwneud ar ba brosiectau fydd yn symud ymlaen.

Mae ymgeiswyr wedi derbyn adborth, a byddwn yn parhau i siarad gyda'r cwmnïau llwyddiannus yn ystod mis Medi wrth iddynt baratoi ar gyfer y Cam Datblygu.

Bydd diweddariad pellach ar y Gronfa i ddilyn yn ein cylchlythyr ym mis Hydref.

# Newyddion Bargen Dwf

## Arweinwyr Cyngor yn Ymweld â CYDA i gael Diweddariad am Ddatblygiad Cynefin

Yn diweddar, bu'n bleser gan Canolfan y Dechnoleg Amgen (CYDA) groesawu Cynghorydd Bryan Davies a Chynghorydd Jake Berriman, arweinwyr Cynghorau Sir Ceredigion a Phowys, ar ymweliad safle ac i gael diweddariad am y cynnydd ar brosiect datblygu cyfalaf blaengar, sef Cynefin: Calon Werdd Cymru.

Yn ystod eu hymweliad, cyfarfu arweinwyr y cynghorau gyda Chyd Brif Swyddog Gweithredol CYDA, Eileen Kinsman, i glywed am y cerrig milltir a gyflawnwyd gan brosiect Cynefin yn ddiweddar, ac i drafod ei effaith yn y dyfodol. Roedd yr ymweliad yn cynnwys taith o gwmpas y safle a chyflwyniad yn amlinellu cyflawniadau'r prosiect hyd yn hyn a'r camau cyffrous nesaf.

Darllenwch mwy ar wefan [CYDA.]



*2 - (Ch-Dd) Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion; Cyd Brif Swyddog Gweithredol CYDA Eileen Kinsman, a Y Cynghorydd Jake Berriman, Arweinydd Cyngor Sir Powys*

# Cyfnewidfa Rhydlewis yn cyrraedd targed 100% ar gyfer prosiect ffibr cymunedol



Ar 08 Medi, cadarnhaodd Openreach fod prosiect Cyfnewidfa Rhydlewis bellach wedi cyrraedd 100% o'i darged cyllido cymunedol diwygiedig – carreg filltir enfawr i un o ardaloedd mwyaf gwledig a gwasgaredig Ceredigion.

Roedd gan y gyfnewidfa, sy'n gwasanaethu 1,058 o adeiladau ar draws 127 o godau post, rai o'r cwmpas ffeibr isaf yn y sir, gyda dim ond 30% o gartrefi a busnesau yn gallu cael mynediad at Ffeibr Llawn (FTTP). Er gwaethaf heriau daearyddol a rhwystrau a achoswyd gan ddifrod storm yn gynharach eleni, mae trigolion lleol wedi gweithio gyda'i gilydd i godi £1.4 miliwn mewn addewidion i sicrhau y bydd cyflwyno ffeibr yn cyrraedd pob eiddo cymwys.

Hyd yn hyn, mae 154 o adeiladau eisoes yn "Barod ar gyfer Gwasanaeth," gyda'r gwaith yn parhau ar draws y dalgylch. Disgwylir i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau yn ddiweddarach eleni, gan ddod â chysylltedd trawsnewidiol i gartrefi a busnesau yn Rhydlewis.

Amlygwyd Rhydlewis am y tro cyntaf yn ein herthygl ar y cyfleoedd ar gyfer chwyldro digidol yng Nghanolbarth Cymru y llynedd. Mae'r garreg filltir ddiweddaraf hon yn dangos beth sy'n bosibl pan fydd cymunedau gwledig yn dod at ei gilydd i sicrhau buddsoddiad yn eu dyfodol digidol – ac mae'n cynnig anogaeth i eraill sy'n dal i weithio tuag at eu targedau eu hunain yn Felindre, Maesycrugiau, a Llandysul.

✅ Edrychwch i weld a ydych mewn Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Talebau – Mae rhai ardaloedd yn y canolbarth, gan gynnwys Aberteifi, Llandysul, Maesycrugiau a Chastellnewydd Emlyn, yn gymwys i gael talebau band eang a ariennir gan y Llywodraeth. Ym Mhowys, mae Partneriaethau Ffeibr Cymunedol yn ehangu gwasanaethau band eang.

Os ydych mewn ardal gymwys gallai cofrestru eich helpu i ddylanwadu ar gynlluniau i ehangu band eang, a sicrhau cyllid ar gyfer cysylltedd gwell nad yw'n costio dim i chi. Gallwch wirio a ydych yn gymwys a chofrestru eich diddordeb yma: Cysylltu Fy Nghymuned

## Swyddi ar gael!

### Dadansoddwr Portffolio x 2




🚀 Cyfle cyffrous i fod yn rhan o'r tîm sy'n cyflawni Bargen Twf Canolbarth Cymru ac yn siapio dyfodol ein rhanbarth. Rydym yn chwilio am ddau Ddadansoddwr Portffolio i ddod â'u sgiliau a'u syniadau—darganfyddwch fwy a cheisio amdani👉https://careers.ceredigion.gov.uk/cy/jobs/req106234cym/

❗Dyddiad Cau: 25/09/25❗

### Rheolwr Datblygu Prosiectau Strategol




Yn barod i arwain prosiectau mawr sy'n sbarduno newid go iawn?Rydym yn recriwtio Rheolwr Datblygu Prosiectau Strategol i helpu i gyflawni rhaglenni cyfalaf sy'n cefnogi twf economaidd ledled Ceredigion. Os ydych chi'n feddyliwr rhagweithiol, strategol sydd â brwdfrydedd dros ddatblygu sy'n seiliedig ar le, rydym am glywed gennych chi.

Manylion pellach ➡️

❗Dyddiad Cau: 18/09/2025❗

## Newyddion eraill

### Galw ar holl Entrepreneuriaid ac Arweinwyr busnes Cymru ledled y byd

Ymunwch â ni ar-lein ar 18 Medi am ddigwyddiad newydd sbon i gychwyn y sgwrs ac archwilio beth sydd gan Gymru i'w gynnig i'ch busnes.

Bydd Connect to Cymru yn dod ag entrepreneuriaid, arweinwyr busnes a rhanddeiliaid allweddol o bob cwr o Gymru a'r byd ynghyd i helpu i wneud yr uchelgeisiau hyn yn realiti ac ateb rhai o'r cwestiynau pwysicaf:

- Beth sydd ei angen i gychwyn neu ehangu fy musnes yng Nghymru?

- Pwy yw'r bobl gywir i gysylltu â nhw?

- Pa gefnogaeth sydd ar gael i'm busnes?

- Pwy sydd wedi llwyddo i'w wneud o'r blaen?

- Beth yw'r gwahaniaethau rhanbarthol a pha fentrau lleol sydd ar waith?

I gael rhagor o wybodaeth ac i gofrestru ewch i dudalen y digwyddiad
>> https://connect.globalwelsh.com/networks/events/185422



### Galwad olaf am geisiadau i ymuno â Rhaglen Cyflymu Dechrau Busnes gan Busnes Cymru

Mae ceisiadau ar agor ar gyfer Rhaglen Cyflymu Dechrau Busnes nesaf Busnes Cymru, sef rhaglen deg wythnos gwbl ar-lein a fydd yn rhedeg rhwng dydd Mawrth 30 Medi 2025 a dydd Gwener 12 Rhagfyr 2025. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Llun 15 Medi 2025.

Mae'r rhaglen gyflymu wedi ei dylunio'n arbennig ar gyfer entrepreneuriaid yng Nghymru sydd â syniadau busnes twf uchel, gan gynorthwyo eu datblygiad o sicrhau cwsmer cyntaf i baratoi ar gyfer buddsoddiad. Bydd cyfranogwyr yn elwa o gymorth wedi ei deilwra gan hyfforddwyr profiadol sydd â ffocws cryf ar adeiladu model busnes cynaliadwy a chynhyrchu refeniw.

Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan Busnes Cymru.




## Edrych ymlaen

Hoffech chi ddal fyny gyda'r hyn a drafodwyd yn ein cyfarfodydd? Cofiwch, gallwch gael gafael ar gofnodion y cyfarfodydd canlynol yma:

- Caiff yr holl gofnodion sy'n ymwneud â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu cynnwys ar wefan Cyngor Sir Powys.
- Gellir gweld papurau sy'n ymwneud â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ein gwefan.

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau Linked In a Twitter:

https://twitter.com/growingmidwales

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

https://www.youtube.com/@TCC-GMW

Rydym yn awyddus i gyrraedd gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad:  Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e- bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru.

Tyfu
Canolbarth Cymru
Growing
Mid Wales